



# **Polisi Terfynu**

# **Cyflogaeth yn Gynnar**

# **(Taliadau Dewisiol)**

<b>Cymeradwywyd gan</b>	<b>Y Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad Cymeradwyo</b>	<b>01/04/2014</b>
<b>Dyddiad Rhoi ar Waith</b>	<b>01/04/2014</b>
<b>Perchennog</b>	<b>SV</b>
<b>Dyddiad Adolygu</b>	<b>01/04/2023</b>

## Polisi Terfynu Cyflogaethyn Gynnar (Taliadau Dewisiol)

### Rheoli Fersiynau

Mae'r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
f1.1	01.04.14	Cyngor Llawn	Rheoliadau Newydd- Diwygiwyd i adlewyrchu rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol newydd ac i gadarnhau'r broses
f2.0	25.04.18	Andrea Malam	Ail-fformatio
f2.1	06.03.20	Andrea Malam	Adendwm I'r Polisi
F2.2	20.06.22	David Kennedy	Ail-fformatio

## Polisi Terfynu Cyflogaethyn Gynnar (Taliadau Dewisiol)

### Cynnwys

Rheoli Fersiynau	2
Cynnwys	3
ADENDWM I'R POLISI	4
Denbighshire Leisure Ltd. (DLL)	4
Beth yw'r polisi hwn?	4
Budd-daliadau sy'n daladwy ar gyfer dileu swyddi'n gysylltiedig agymddeoliad.	5
Budd-daliadau sy'n daladwy ar gyfer dileu swyddi'n unig.	5
Ymddeol er budd effeithlonrwydd.	6
Osgoi dileu swydd gweithiwr arall yn orfodol	6
Hwyluso camau ailstrwythuro neu newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau	6
Er budd y gweithiwr a'r cyflogwr	7
Budd-daliadau sy'n daladwy ar gyfer ymddeoliadau er buddeffeithlonrwydd.	7
Ymddeol yn fuan a hepgor gostyngiad.	7
Budd-daliadau sy'n daladwy ar gyfer ymddeoliadau ar gais y gweithiwr	7
Beth yw'r broses awdurdodi?	8
Faint fydd y gost i'r gwasanaeth?	8

## Polisi Terfynu Cyflogaethyn Gynnar (Taliadau Dewisiol)

### ADENDWM I'R POLISI

#### Denbighshire Leisure Ltd. (DLL)

At ddibenion dehongli rolau a chyfrifoldebau gweler isod:

CSDd	DLL
Pennaeth y Gwasanaeth	Rheolwr Gyfarwyddwr / Aelod o'r Tîm Gweithredol
Cyfarwyddwr	Cyfarwyddwr Bwrdd y Cwmni
Uwch Dîm Rheoli	Tîm Gweithredol y Cwmni Swyddog Adran 151
Cyfrifydd y Cwmni Swyddog Monitro	Ysgrifennydd y Cwmni

### Beth yw'r polisi hwn?

Gall yr oedran ymddeol arferol o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fod naill ai'n 65 oed neu'n oedran pensiwn y wladwriaeth, yn dibynnu pryd fydd gweithiwr yn ymuno â'r cynllun. Efallai y bydd rhai gweithwyr wedi amddiffyn eu budd-daliadau cyn hyn, yn dibynnu ar eu hoedran a phryd y gwnaethant ymuno â'r cynllun. Bydd unrhyw weithiwr sy'n ymddeol cyn 65 oed / oedran pensiwn y wladwriaeth yn cael ei ystyried yn ymddeoliad cynnar. Bydd gweithwyr yn gallu ymuno â'r cynllun neu aros ynddo hyd nes y diwrnod cyn eu pen-blwydd yn 75 oed, a pharhau i gronni aelodaeth. Fodd bynnag, rhaid i daliadau o fudd-daliadau ddechrau cyn i'r gweithiwr gyrraedd 75 oed.

O Ebrill 2014, bydd aelod 55 oed (sydd wedi bod yn aelod am dros 2 flynedd neu fwy na 3 mis os ydynt yn aelod cyn 1 Ebrill 2014, neu werth trosglwyddo cyfwerth i'r CPLIL) yn gallu gadael eu cyflogaeth yn

## **Polisi Terfynu Cyflogaethyn Gynnar (Taliadau Dewisiol)**

wirfoddol a gofyn bod eu pensiwn yn cael ei dalu. Fodd bynnag, gall hyn olygu gostyngiad am daliad cynnar.

Bydd yn bosibl i'r cyflogwr ystyried hepgor unrhyw ostyngiad yn llawn neu'n rhannol o dan yr amodau canlynol:

- Ymddeoliad yn gysylltiedig â dileu swydd
- Ymddeoliad er budd effeithlonrwydd
- Cais gweithiwr i ymddeol a hepgor y gostyngiad.

Nid yw'r polisi hwn yn cwmpasu ymddeoliadau oherwydd salwch gan nad oes unrhyw daliadau dewisol cymwys mewn achosion o'r fath. I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau sy'n daladwy mewn achos o salwch, gweler y Broses Ymddeol oherwydd Salwch.

## **Budd-daliadau sy'n daladwy ar gyfer dileu swyddi'n gysylltiedig ag ymddeoliad.**

Bydd gweithiwr dros 55 oed y bydd eu cyflogaeth yn cael ei therfynu oherwydd dileu swydd yn cael taliad dileu swydd uwch yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi, ac os ydyw'n gymwys i gael Pensiwn Llywodraeth Leol, budd-daliadau pensiwn sylfaenol heb ostyngiad.

Ar ôl ymddeol, bydd y gweithiwr yn cael pensiwn blynyddol ac os ydyw'n gymwys, cyfandaliad untro. Ni fydd hwn yn cael ei ostwng gan fod y gost o gael mynediad cynnar i'r pensiwn yn cael ei dalu gan y cyflogwr. Yn ogystal, bydd y gweithiwr yn cael taliad dileu swydd uwch wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio cyflog wythnosol gwirioneddol dan gontract, yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi. Ni fydd taliad dileu swydd o hyd at £30,000 yn destun didyniadau Treth neu Yswiriant Gwladol.

## **Budd-daliadau sy'n daladwy ar gyfer dileu swyddi'n unig.**

Bydd gweithiwr y bydd eu cyflogaeth yn cael ei therfynu oherwydd dileu swydd ac nad ydynt yn gymwys am pensiwn, yn cael taliad dileu swydd uwch yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi. Bydd y gweithiwr yn cael

## **Polisi Terfynu Cyflogaethyn Gynnar (Taliadau Dewisiol)**

taliad dileu swydd uwch wedi'i gyfrifo drwy ddefnyddio cyflog wythnosol gwirioneddol dan contract, yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi.

Ni fydd taliad dileu swydd o hyd at £30,000 yn destun didyniadau Treth neu Yswiriant Gwladol.

### **Ymddeol er budd effeithlonrwydd.**

Gellir cynnig ymddeoliad drwy gytundeb ar y cyd i weithwyr, sy'n gymwys yn ôl oedran a gwasanaeth (sydd wedi bod yn aelod am dros 2 flynedd neu fwy na 3 mis os ydynt yn aelod cyn 1 Ebrill 2014, neu werth trosglwyddo cyfwerth i'r CPLIL) i dderbyn budd- daliadau ymddeol heb ostyngiad, lle byddai'r cyngor yn fodlon y byddai terfynu cyflogaeth yn arwain at well effeithlonrwydd o'r gwasanaeth.

Wrth gymeradwyo ymddeoliad o dan sail effeithlonrwydd, bydd y cyngor yn sicrhau y bydd yn parhau i gyflawni ei nodau a gwerthoedd, er enghraifft, yn yr angen i ddarparu gwasanaethau sy'n ymatebol, effeithlon, dibynadwy ac effeithiol, neu i agor cyfleoedd cyflogaeth newydd.

Gellir rhannu hyn i dri maes:

### **Osgoi dileu swydd gweithiwr arall yn orfodol**

Er mwyn osgoi dileu swyddi'n orfodol, byddai'r awdurdod yn ceisio gwirfoddolwyr i ymddeol yn gynnar o'r gweithlu. Lle ceisir gwirfoddolwyr, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i wrthod cais ar sail weithredol neu fusnes arall.

### **Hwyluso camau ailstrwythuro neu newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau**

Byddai hyn yn berthnasol lle mae cynigion ffurfiol wedi'u llunio ar gyfer ail-strwythuro neu newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau. Mewn achosion o'r fath, ni fyddai'r newidiadau yn cyfiawnhau dileu swydd o fewn y diffiniadau swyddogol a bennwyd yn y gyfraith gyflogaeth, ond efallai nad ydyw'r person yn y swydd y person cywir i weithredu'r newidiadau sydd eu hangen.

Ni fyddai hyn yn cael ei ddefnyddio mewn achosion lle mae gweithiwr wedi gwneud cais i adael o ganlyniad, y mae'r adran yn manteisio ar y cyfle i adolygu eu strwythur a darpariaeth gwasanaethau.

## **Polisi Terfynu Cyflogaethyn Gynnar (Taliadau Dewisiol)**

### **Er budd y gweithiwr a'r cyflogwr**

Gallai hyn fod yn berthnasol i'r cyflogwr, lle mae gallu'r gwasanaeth neu dîm i wella yn cael ei gryfhau drwy ryddhau aelod o staff. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r cam effeithlonrwydd hwn i hwyluso'r broses o ryddhau gweithwyr trafferthus. Dylid ymdrin â materion yn ymwneud â gallu, ymddygiad neu ddisgyblaeth yn unol â'r polisi priodol.

### **Budd-daliadau sy'n daladwyar gyfer ymddeoliadau er budd effeithlonrwydd.**

Ar ôl ymddeol, bydd y gweithiwr yn cael pensiwn blynyddol ac os ydyw'n gymwys, cyfandaliad untro. Ni fydd hwn yn cael ei ostwng gan fod y gost o gael mynediad cynnar i'r pensiwn yn cael ei dalu gan y cyflogwr. Yn ogystal, gall cyfandaliad iawndal fod yn daladwy hyd at uchafswm o 45 wythnos.

Bydd nifer gwirioneddol yr wythnosau sy'n daladwy yn cael ei benderfynu gan Grŵp Awdurdodi fydd yn cynnwys y Pennaeth AD, Cyfreithiol a Democrataidd, Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaeth.

Ni fydd y cyfandaliad iawndal hwn yn destun didyniadau treth neu yswiriant gwladol hyd at £30,000.

### **Ymddeol yn fuan a hepgor gostyngiad.**

Ar unrhyw adeg o 55 oed ymlaen, gall gweithwyr (sydd wedi bod yn aelod am dros 2 flynedd neu fwy na 3 mis os ydynt yn aelod cyn 1 Ebrill 2014, neu werth trosglwyddo cyfwerth i'r CPLIL) ddewis yn ysgrifenedig i adael y cyngor, a chael eu budd-daliadau pensiwn heb gymeradwyaeth eu cyflogwr. Fodd bynnag, gall gweithwyr ofyn i'w cyflogwr hepgor rhywfaint, neu'r holl ostyngiad y gallent eu hwynebu drwy dynnu eu budd-daliadau'n gynnar.

### **Budd-daliadau sy'n daladwy ar gyfer ymddeoliadau ar gais y gweithiwr**

Os yw gweithiwr yn ymddeol cyn yr oedran ymddeol arferol, efallai y ceir gostyngiad yn ei gyfandaliad a'i bensiwn. Mae'r gostyngiad yn dibynnu ar faint o flynyddoedd yn gynt maent yn gadael, ynghyd â'u hoedran a'u haelodaeth pan fyddant yn ymddeol. Mae'r gostyngiad yn cael ei gyfrifo yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Actiwari'r Llywodraeth, a bydd budd-daliadau pensiwn yn cael eu gostwng i adlewyrchu'r taliad cynnar rhwng 55 oed a'u Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Polisi Terfynu Cyflogaethyn Gynnar (Taliadau Dewisiol)

Gellir gweithredu'r "Rheol 85 Mlynedd" (lle mae gwasanaeth ac oedran aelod yn gyfartal i 85 cyn eu Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth) ar gyfer aelodau unigol, cyn 60 oed yn achos ymddeoliad cynnar, lle bydd y gost yn cael ei thalu'n llawn neu'n rhannol gan y cyflogwr.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych y dewis i hepgor gostyngiadau'n llawn neu'n rhannol, a bydd yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun os tybir eu bod yn hyfyw yn ariannol.

## Beth yw'r broses awdurdodi?

Yn gyntaf mae angen gwneud achos Busnes ar gyfer pob terfyniad. Dylai costau fod yn adferadwy cyn gynted ag y bo modd a heb fod yn fwy na 3 blynedd.

Os yw'n hyfyw yn ariannol, yna bydd yn mynd ymlaen i'r cam [Ffurflen Awdurdodi Ymddeoliad / Dileu Swydd \(TERM1\)](#) i'w gymeradwyo.

Rhaid i bob swydd a ddilëir ac effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig ag ymddeoliadau cynnar a gostyngiadau wedi'u hepgor, gael cymeradwyaeth gan y grŵp awdurdodi sy'n cynnwys:

- Pennaeth Gwasanaeth
- Pennaeth AD, y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Swyddog Adran 151

Bydd y Prif Weithredwr yn cymryd lle unrhyw un o'r uchod yn ôl yr angen.

Bydd pob cais i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr angen cael eu cymeradwyo gan y cyngor llawn.

Rhaid cwblhau Achos Busnes ar gyfer Taliadau lawndal ar gyfer Effeithlonrwydd a Ffurflen Awdurdodi Ymddeoliad / Dileu Swydd (TERM1) gan y rheolwr a chael cytundeb a llofnod y panel uchod.

## Faint fydd y gost i'r gwasanaeth?

Mae dwy gost yn gysylltiedig â therfynu cyflogaeth yn gynnar, sef taliadau dileu swydd neu effeithlonrwydd a / neu gostau straen pensiwn y cyflogwr

Dylid gallu adennill cost y straen ar y gronfa pensiwn ac unrhyw daliad dileu swydd neu effeithlonrwydd a allai fod yn ddyledus gan yr adran yn yr amser byrraf posibl, a dim hwyrach na 3 blynedd o ddyddiad



## Polisi Terfynu Cyflogaethyn Gynnar (Taliadau Dewisiol)

terfynu cyflogaeth y deiliad swydd. Bydd hyn yn cael ei benderfynu wedi cwblhau'r [Ffurflen Awdurdodi Ymddeoliad / Dileu Swydd \(TERM1\)](#).

Gellir ad-dalu costau straen pensiwn y cyflogwr i'r gronfa ar unwaith yn dilyn ymddeoliad, neu dros gyfnod o 3 blynedd, a fydd yn cynnwys taliadau llog.